Gair Bach Bethlehem 2022

RHIFYN 37

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth – rhif 37 - mis Hydref 2022

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Côr Sul y Diolch

(Rhagor o luniau o'r holl gyfranwyr i'r oedfa ar dudalen 10)
Yr oedfa gyfan ar-lein ar:

https://youtu.be/DuHAW7c7qH8)

Esyllt a Leah yn Hanner Marathon Caerdydd

Mae Esyllt (chwith) a Leah (ar y dde) wedi codi rhai cannoedd o bunnau rhyngddyn nhw drwy redeg hanner marathon Caerdydd tra roedd Bethlehem yn dathlu ein Gŵyl Ddiolchgarwch.

Cewch wybod beth ysgogodd eu camp ar dudalen 3

Mae'r Ysgol Sul wedi ailgychwyn ers dechrau mis Medi. Dyma gip ar sut oedd hi ar y bore cyntaf.

Dyma'r oedfaon dros yr haf

Suliau Bethlehem – Hydref a Thachwedd

*(**am 10:30 a.m**.ym Methlehem)*

Hydref

9 - Delwyn Siôn
16 - Parchg R. O. Griffiths
23 - Parchg Ddr R. Alun Evans
30 - Sul Adferiad
(Wynford Ellis Owen)

Tachwedd

6 – *(bore)* Delwyn Sion
(pnawn) Recordio Caniadaeth y Cysegr (gweler isod)
13 - Parchg Jeff Williams
20 - Sul yr Urdd
27 - Parchg Robin W. Samuel

Recordio ar gyfer

Caniadaeth y Cysegr
Pnawn Sul, Tachwedd 6

Cofiwch bod angen pawb o'r gynulleidfa sydd ar gael i ganu.
Mae Eilir a Delyth yn awyddus i BAWB ymuno!

(Dyma'r emynau i chi gael practis bach arnyn nhw yn y tŷ!)

560 – Haleliwia, Cyfodi wnaeth (472)
566 – Gwawriodd bore newydd (477)
570 – Greawdwr ac Iachawdwr glân (480)
580 – O Dduw rho im dy ysbryd (488)
583 – Disgyn Iôr, a rhwyga'r nefoedd (489)
584 - Ysbryd byw y deffroadau (489)
597 – O ysbryd byw, dylifa drwom (500)
618 – Wele deulu d'eglwys (516)
628 – Rwyf yn codi fy mhobol (Merched) (525)

Bydd y plant hefyd yn recordio 8 emyn yr un diwrnod.

Esyllt a Leah yn sôn am

HANNER MARATHON CAERDYDD

Ar 2 Hydref fe fu dwy o famau'r Ysgol Sul ym Methlehem, Leah Owen-Griffiths ac Esyllt Green, rhedeg 13 o filltiroedd o gwmpas strydoedd Caerdydd. Roedd hi'n sialens newydd i'r ddwy oedd heb fentro ar ras o'r pellter hwn o'r blaen. Dyma sylwadau'r ddwy cyn iddyn nhw fentro ar eu taith:

Esyllt ar ei thaith

Dechreuais i redeg tua 5 mlynedd yn ôl ar gwrs dechreuwyr gyda grŵp rhedeg menywod yn Mhenarth. Cyn hynny doedd gen i ddim profiadau da o redeg. Dwi'n cofio y poen o redeg traws gwlad yn ysgol Glantaf yng nghanol gaeaf a'r merched heini fel Flo-Jo yn pasio heibio.

Dwi ddim yn rhedwraig naturiol na chyflym ond dwi wedi ffeindio fy hun yn mwynhau bod allan yn yr awyr iach yn darganfod llwybrau newydd. Mae amryw o fy ffrindiau dros y blynyddoedd wedi cwblhau rasys rhedeg a finne wedi bod ar ochr ffordd yn gweiddi canmoliaeth. Ac yn amlwg fe eginodd rhyw sbarc ynof a chwant i fod yn rhan o hyn fy hun.

Ond roeddwn i hefyd eisiau gwneud rhywbeth i nodi 15 mlynedd ers colli Dad (TJ) felly penderfynais y byddwn yn ceisio codi arian i Parkinsons UK. Mae'r elusen yn llwyr ddibynnol ar gyfraniadau i ariannu ymchwil mewn i wellhad i'r afiechyd creulon hwn. Os hoffech chi gyfrannu at yr achos hwn mae linc i'r dudalen noddi isod. Diolch yn fawr.

Esyllt Green

https://www.justgiving.com/fundraising/Es-green

Leah gyda'i brodyr

Petai rhywun wedi dweud wrtha'i ddwy flynedd yn ôl y buaswn yn rhedeg Hanner Marathon eleni, ni fuaswn wedi credu'r peth! Doedd e ddim yn her yr oeddwn i erioed wedi ei ystyried. Roedd e'n rhywbeth i bobl eraill i'w gyflawni, ond nid fi. Fel y gwyr rhai ohonoch, fe es i ar daith drawsnewid hynod gyhoeddus ar raglen Ffit Cymru llynedd, a dyma brofiad sydd wedi trawsnewid fy mywyd ymhob ystyr. Er i mi golli dros dair stôn a hanner, y gwahaniaeth mwyaf yw'r gred ynof fi fy hun. Rhoddon nhw'r arfau i fi wireddu breuddwydion a chredu yn fy ngallu fy hun. Mae'n bwysig gosod heriau ychydig tu hwnt i'ch gallu, ac felly dros y misoedd diwethaf rydw i wedi bod yn ceisio cynyddu'r pellter yn raddol er mwyn mentro i gwblhau'r nod o groesi llinell derfyn Hanner Marathon Caerdydd. Nid peth hawdd yw hwn, dydy rhedeg ddim yn dod yn naturiol i fi o gwbl. Mae'n fater o wthio eich hun i'r eithaf - yn gorfforol ac yn feddyliol.

Mae'n her bersonol, ond yn un sydd hefyd yn cael ei rannu gydag eraill; fy mrodyr, sy'n redwyr profiadol, ac hefyd criw o ffrindiau o Gôr CF1. Gyda'n gilydd, rydym yn codi arian at dair elusen haeddiannol ac agos iawn at ein calonnau, sef Canolfan Ganser Felindre, Ambiwlans Awyr Cymru a Mind Cymru. Buaswn yn ddiolchgar am unrhyw gefnogaeth y gallwch ei gynnig, boed yn gyfraniad at yr elusennau, neu'n floedd o ganol y dorf ar y diwrnod!

Mae meddwl am y diwrnod yn fy llenwi â balchder a 'dwi methu aros i deimlo'r wefr ac i basio wynebau caredig a chalonogol ar hyd y daith. A dyma fydd taith a hanner.

Leah Owen Griffiths

https://www.gofundme.com/f/hanner-marathon-cf1-half-marathon?utm_campaign=p_cp+share-sheet&utm_medium=copy_link_all&utm_source=customer

Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gyfrannu at yr elusennau uchod.

Datganiad Polisi

Diogelu Grwpiau Bregus

"Fel eglwys, rydym yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu lles ein haelodau a'r rheini a roddwyd yn ein gofal. Bydd aelodau'r eglwys, staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn dangos parch at eraill, yn hybu ethos o wrando ar blant a phobl fregus gan ymddwyn mewn modd sy'n adlewyrchu egwyddorion yr Eglwys Gristnogol. Bydd yr eglwys yn gofalu am blant a phobl ifanc, ynghyd ag oedolion bregus, ac yn eu diogelu trwy ddilyn arferion da mewn perthynas â'r canlynol:

- Recriwtio gweithwyr yn ddiogel
- Hybu arferion da yn y gwaith
- Hyfforddi a chefnogi gweithwyr yn eu swyddogaethau ac mewn amddiffyn plant a phobl fregus"



Fe fydd nifer fawr ohonoch yn ymwybodol o fodolaeth y Llawlyfr sydd ar y dde. Mae copi ohono yn y Festri – ewch i gael cip arno!

Paratowyd y Llawlyfr gan y Panel Diogelwch Cydenwadol, ac mae yna ddiweddaru wedi bod arno dros y cyfnod diweddar yma.

"Mae'r Panel Diogelwch Cydenwadol yn cynnig hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n ymwneud a grwpiau bregus yn yr eglwys neu sydd yn gweithio yn uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus. Mae pob sesiwn hyfforddiant wedi selio ar ein polisïau a chanllawiau cyfredol. Nod yr hyfforddiant yw arfogi ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod nhw'n gyfarwydd gyda'n polisïau a gweithdrefnau ac yn gwybod sut i ymateb os ydynt yn poeni am unigolyn neu sefyllfa.

*Mae hyfforddiant diogelwch yn **orfodol** ar gyfer gweithwyr plant ac oedolion bregus ac fel arfer yn angenrheidiol i gwrdd a'ch gofynion yswiriant a chyfrifoldebau eich capel fel elusen yn ôl y Comisiwn Elusennau."*

Cadeirydd presennol Swyddogion y Panel Diogelwch ydi Emlyn Davies, Pentyrch.

"Rydym yn symud tuag at fodel newydd o ddarparu hyfforddiant, lle mae tîm bach o wirfoddolwyr o bob cwr o Gymru wedi'u hyfforddi i arwain sesiynau hyfforddiant diogelu sylfaenol i wirfoddolwyr mewn eglwysi lleol. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous a fydd yn cynyddu'r hyfforddiant sydd ar gael."

I lawr lwytho neu weld copi cyfan o'r llawlyfr 2022 cliciwch ar y ddolen: Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus neu gallwch ddarllen neu lawr lwytho yr adrannau unigol isod:

- Adran 1: Cyflwyniad a datganiad o fwriad a datganiad polisi'r eglwys unigol (adran newydd)
- Adran 2: Recriwtio a dethol mwy diogel (gan gynnwys gwybodaeth gwiriadau DBS a siartiau llif (adran newydd)
- Adran 3: Gweithio gyda phlant a phobl ifanc a sut i ymateb i bryderon
- Adran 4: Gweithio gydag oedolion bregus a sut i ymateb i bryderon
- Adran 5: Gofal Bugeiliol
- Adran 6: Atodiadau a gwybodaeth i'ch cefnogi i weithredu'r polisi (newydd – 1, 2a, 7, 8 ,9, 10)
- Adran 7: Ffurflenni i'ch cefnogi i weithredu'r polisi

"Mae copïau papur o'r diweddariadau yn cael eu hargraffu a dylent fod yn barod yn fuan. Bydd pob eglwys yn derbyn pecyn o fewnosodiadau y dylech eu hychwanegu at eich ffeil wreiddiol"

'Rydym yn hynod ffodus o dderbyn cyngor doeth gan Mair John yn ein hymwneud a'r gwaith hwn, ac mae'n nodi bod y Panel wedi datgan:-

"*…fod gwirio Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd [DBS] yn para 4 blynedd, felly bydd rhaid i'r rhai a wnaeth y DBS y tro diwethaf ail-wneud tuag at ddiwedd y flwyddyn hon/dechrau 2023*."

Ein bwriad ydi cynnal sesiwn hyfforddi dros Zoom, a bydd gwahoddiad agored i unrhyw un sy'n dymuno bod yn rhan o hynny.

Cewch fwy o fanylion yn fuan am hyn.

RhGJ

Diolch diolch Kwasi, diolch diolch Kwasi

Delwyn Sion



Diolch, diolch, Kwasi yw fy nghân …wel! ... *oedd* fy nghân, hynny yw, os y'ch chi'n digwydd bod yn filiwnydd!

Achos, ers bore Llun diwethaf a thro pedol y Canghellor, mae'r mega gyfoethog unwaith eto'n gorfod talu eu siâr nhw o'r dreth incwm. "Trist iawn very sad!" Er ma' dal rhwydd hynt i'w cefndryd o Fancwyr Mega Mega Gyfoethog o bedwar ban ariannol y byd ddod i Lundain, a derbyn faint bynnag o arian mae eu cwmnïau am dalu iddyn nhw fel bonws, haeddiannol neu beidio, a hynny ar ben eu cyflogau nid ansylweddol. Dyma'r ffordd ymlaen, medd Kwasi, ac mae'n siŵr bod pob miliwnydd a biliwnydd yn y byd yn cytuno…..wel…falle ddim.

Dwi'n siŵr bo' ni gyd yn gyfarwydd â'r enw Disney, y cwmni cartŵn enwog a gychwynnwyd gan Walt Disney nôl ym 1923, ond falle bo ni ddim mor gyfarwydd ag enw Roy Disney, brawd a phartner busnes Walt, ac Abigail Disney, merch Roy. Yn ôl Abigail ma' hi'n "gyfoethog iawn…iawn…. RHY gyfoethog!!!" Ie! RHY gyfoethog! A galle hi 'di bod yn gyfoethocach tase hi heb benderfynu rhoi symiau sylweddol o'i chyfoeth i ffwrdd. Sylweddolodd yn ei hugeiniau bod ei chyfoeth yn ei gwneud hi'n ddiflas, ac felly dyma ddechrau'i rannu.

Erbyn hyn ma' hi 'di rannu ymhell dros £50 Miliwn, a'r rhan fwyaf yn mynd at grwpiau merched a menywod bregus, ond, yn fwy na hynny, ma' hi wedi galw ar Swyddfa Treth America i godi'r trethi ma' hi a'r Mega Gyfoethog yn y wlad yn talu. "Iyp", ma' *hi* eisiau talu *mwy* o dreth, a hynny er mwyn cynnal gwasanaeth iechyd, a iechyd meddwl, i *bawb* yn y wlad. Ac yn fwy na hynny, mae wedi sefydlu cymdeithas o gyfoethogion sy'n datgan yn agored eu bod nhw'n "fradwyr i'w dosbarth breintiedig", ac ma' nhw'n dadlau'n daer y dylai'r dreth uwch; sylweddol uwch, a pharhaol uwch, ddechrau "ddoe", mae'n amlwg bod heddiw'n rhy hwyr yn eu golwg! Wedi'r cyfan, mae cyfoeth Bilionêrs y Byd yma wedi cynyddu 40% yn ystod Covid, a rhyfedd o fyd, sdim un nyrs yn eu plith!

"Gwae chwi'r cyfoethogion" oedd bygythiad yr Iesu ar ddiwedd y Gwynfydau, ond mae'n amlwg nad yw pob person cyfoethog yr un fath, felly diolch am ambell un fel Abigail Disney, sy'n amlwg yn credu mai nad Fantasia yw'r syniad bod y cyfoethog yn gallu byw ar ychydig yn llai, er mwyn i'r tlawd gael ychydig yn fwy. Syniad byddai'n dda i bob canghellor yn y byd ei fabwysiadu.

Tybed felly beth fydd hanes Mr Kwarteng a'i debyg ? Muppets neu Incredibles? Amser a ddengys.

NEWYDDION

Rhidian King a Farida yn dathlu priodas dros dri diwrnod.

Sianed King, Llandaf, *mam y priodfab, sy'n rhoi'r hanes i ni am y tridiau o ddathlu yn Nhŷ Palmwydd yn Sefton Park, Lerpwl, ym mis Gorffennaf.*

Mae Farida yn ddeintydd ac ar fin dechrau ei hyfforddiant mewn llawdriniaeth ar y genau yn Newcastle, Gogledd Lloegr. Cafodd ei rhieni eu geni yn yr India ac mae ganddyn nhw gysylltiadau agos o hyd gyda'u teulu sydd yn dal i fyw yno. Ond mae'r teulu wedi byw yn Bolton am sawl blwyddyn ac yn dilyn y grefydd Islam, ac felly roedd y briodas yn un ddiddorol iawn.
Roedd yna ddathliadau am rhyw 3 diwrnod.
Ar y dydd Gwener, roedd y 'Pithi', ac yn ystod y digwyddiadau hyn maen nhw'n addurno croen y merched â henna ac mae turmeric yn cael ei rwbio i wallt a breichiau'r briodferch. Mae hyn yn cael ei wneud mewn hwyl ac fel testun sbri. Ac i orffen cawsom wledd o fwyd traddodiadol Indiaidd.
Mae'r diwrnod hwn yn un pwysig i'r gymuned Islamaidd; nhw oedd yn gwneud y bwyd ac yn gweini arnom. Cawsom groeso mawr yna cyfarfod â chyfaill agos i'r teulu (Imam) sydd yn medru olrhain ei linach yn ôl i'r proffwyd Mohammed.
Ar ôl hyn oll, cafodd unrhyw fwyd oedd heb ei fwyta ei roi i'r Ysbyty lleol. Mae ganddyn nhw deimladau cryf iawn tuag at y gymuned ac maen nhw'n gwneud eu gorau i helpu ei gilydd ym mhob ffordd.
Ar y dydd Sadwrn, yn Bolton cafwyd Barbiciw yng ngardd cefn rhieni Farida - gwahoddwyd cyfeillion y teulu a'u holl cymdogion. Pwrpas hyn ydi ceisio rhoi cyfle i'r rhai hynny na chafodd wahoddiad i'r briodas ei hun i gael cyfle i ymuno â'r dathliadau.
Ac yna, daeth dydd Sul y briodas ei hun. Yn gyntaf, roedd y briodas Islamaidd dan ofal yr Imam – y Nikah, ac yna priodas gyda'r Cofrestrydd.
I ddilyn hyn roedd y 'Walima' gyda rhagor o fwyd blasus Indiaidd, ac i'w ddilyn pin afal a theisen briodas - teisen wedi ei choginio gan Rhydian ei hun.

Ac wrth gwrs yn ystod yr holl hyn – dim alcohol. Tri diwrnod difyr, hapus a diddorol.

Rhagor o NEWYDDION

✱ Tybed welsoch chi'r stori newyddion am y dylanwad Cymreig mewn Ysgol yn Singapore? Os bu i chi ei cholli, mae'r manylion i'w cael ar wefan Newyddion S4C, sef:
https://newyddion.s4c.cymru/article/10050
Un o feibion Bethlehem oedd canolbwynt yr hanes, neb llai na **Geraint Passmore,** Radur (chwith), ac fe ddywed deryn bach wrthon ni mai Bethlehem hefyd oedd y ddolen cyswllt rhyngddo â'r awdur, sef **Anna Glyn**!

✱ Da gweld y **Dr Huw Edwards,** Yr Eglwys Newydd, wedi dychwelyd i'n plith. Cafodd Huw anhap tra ar ei wyliau ond mae bellach wedi dod dros y cyfan.

✱ Gwell nodi, y tro hwn eto, fod rhai o'n cyd-aelodau wedi cyrraedd pen-blwyddi mwy nodedig nag arfer. Dyna i chi **Delyth Evans**, Yr Eglwys Newydd. Ac yna, ddengmlwydd yn hŷn na hynny, mae **John Evans**, Radur, a **Margaret** ac **Ifan Roberts**, Pentyrch.

✱ Cyfle am ddishgled/paned wedi'r oedfa – hynny ar ôl gweld llacio rhagor ar y cyfyngiadau COVID. Ydy, mae pethau'n dechrau dod nôl i drefn! (Dau hanner llun sydd yma, gyda llaw, rhag i chi gredu fod hollt yn y carped!)

Urddo'r bois yn Wyrdd

Yn ein rhifyn diwethaf roedden ni'n rhagweld byddai dau o aelodau Bethlehem yn cael esgyn i'r Maen Llog yn Nhregaron eleni. Dyna chi – Anthony Evans a Delwyn Sion. – dau oedd wedi gorfod aros am dros ddwy flynedd i gael eu hanrhydeddu!
Ac felly, dyma gadarnhau iddyn nhw basio pob prawf cyn y seremoni a chael eu derbyn yn swyddogol.

Rhagor fyth o NEWYDDION

∗ Croeso mawr i Sara Wyn Williams, merch fach Gwenllian a Mei, gyrhaeddodd yn ddiogel ar Orffennaf 25. Prin bod angen ychwanegu bod Mamgu a Dadcu (Wyn a Heulwen Jones, Yr Eglwys Newydd) wedi dotio cymaint ac iddyn nhw adael y Steddfod i ddod nol am gwtsh ecstra!

∗ Llongyfarchiadau i Carys Elen (merch Carol a Dafydd Jones, Llandaf) ar gael gradd dosbarth cyntaf. Mae hi nawr wedi dychwelyd i Reading i ddilyn cwrs Meistr.

Bu un o'n cyd-aelodau, yr hanesydd a chyn-brifathro, Hefin Mathias, Yr Eglwys Newydd, yn cyfrannu'n helaeth ar y teledu a'r radio dros gyfnod y darllediadau fu yn sgil marwolaeth Y Frenhines Elisabeth. Ac isod, wele Arwel Ellis Owen yn hel atgofion plentyndod am golli'r Brenin blaenorol – Sior y Chweched.

Y 7fed o Chwefror oedd hi. A stafell y diaconiaid oedd y lle. Deg mlwydd oed oeddwn ni. Rown i'n nabod y lleoliad yn dda. Rhwng y Beiblau a'r llyfrau emynau ar y silffoedd, fan hon oedd ble o ni yn dysgu y "tonic sol-ffa" o dabl Curwen ac yn sefyll arholiadau yr henaduriaeth ar y Beibl. Ond roedd na awyrgylch wahanol i'r seiat hon. Cododd fy nhad i agor y gwasanaeth wythnosol a dweud yn ei lais meddal bod "y Brenin wedi marw". Clywais un neu ddau yng nghefn y stafell yn crio, a gweld eraill, gan gynnwys hen lanc o ffarmwr, yn estyn am ei hances boced. Fe aeth fy nhad ymlaen i ddweud bod Sior y 6ed wedi marw "maen debyg o gancr". Doedd hyn yn golygu dim i mi, a doeddwn ni chwaith ddim yn deall pam bod fy nhad yn annog pawb i sefyll a phlygu pen, ac yna dweud dim, cyn cyhoeddi "Duw gadwo'r Frenhines".

Dwi'n cofio fawr ddim arall am y Seiat, ar wahân i lawer o'r ffyddloniaid sefyll y tu allan i'r festri yn smocio ac i fy nhad gynnig ei sigarét i Gwen Wyn Jones yr organyddes - "I helpu gyda'r nerfau" Y tro cynta i mi erioed weld merch yn smocio!

Yn Llansannan, yn Nyffryn Clwyd, bryd hynny, doedd yna ddim trydan. Y papurau dyddiol oedd yr unig ffordd i gadw trac o'r digwyddiadau yn Llundain, a hynny yn bennaf am bod y BBC wedi cau y gwasanaethau radio am ddeg diwrnod y galaru cenedlaethol.

Erbyn y coroni, y flwyddyn ganlynol, mi roedd Abel Jones, perchennog tair o wartheg godro oedd yn byw yn y beudy drws nesaf i'r tŷ, wedi prynu 'generator' a set deledu. Anghofia i byth y wefr o weld Llundain am y tro cynta erioed. "Ai dyna beth ydi dinas?", dwi'n cofio gofyn i mi fy hun. Weles i ddim o'r coroni, rhaid oedd i ni symud allan o'r stafell ffrynt fach, er mwyn i'r oedolion, wel y mamau i fod yn gywir, wylio'r seremoni, yn ei dillad dydd Sul. Nes mlaen yn y dydd fe enillodd John Bryan a finne y Brif Wobr yn 'ffansi dres' y pentre, drwy edrych rhywbeth yn debyg i 'Laurel and Hardy'. A chredwch y ffaith neu beidio, ond fi oedd yr un tenau!

Arwel Ellis Owen

Bethlehem mewn print!

Rhodri-Gwynn Jones

Cyfrol a lansiwyd yn swyddogol yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022 oedd "*Malwan bach fel fi…" yn cloddio am aur,* a olygwyd gan Prydwen Elfed-Owens [Gwasg Carreg Gwalch - Pris £10].
Ei bwriad trwy'r casgliad o 60 o gyfraniadau sydd yn y gyfrol oedd "*dysgu mwy am yr hyn sydd yn digwydd yn enw Crist yng Nghymru heddiw*."[gweler adolygiad John Roberts yn yr Adran Gydenwadol yn "Y Tyst" Rhifyn 8 Medi 2022]
Fe nodir ar y clawr cefn fel a ganlyn:-
"*Mae'r 60 cyfweliad sy'n ffurfio craidd y gyfrol hon yn cynnwys esiamplau o batrymau a dulliau gweithredu y gellid eu hefelychu, eu haddasu a'u datblygu. Yn ogystal, ceir yma ddadansoddiad gan yr awdur sy'n cynnig syniadau, ystyriaethau a meini prawf y gall eglwysi fesur eu pererindodau eu hunain yn eu herbyn*."
Fe rydd cip cyflym ar dudalen "Cynnwys" y gyfrol awgrym bod nifer o'r ardal gyfagos wedi cyfrannu at y cyfanwaith, Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn eu plith!:-



Rhan 1:- Bugeilio ymarferol – tosturi ar y rheng flaen:
Adfer - Wynford Ellis Owen
Rhan 2: Tanio'r Fflam – cenhadu i ddenu'r ifainc a'r gymuned leol:
Achos â statws elusennol – Eleri Mair Thomas, Swyddog Ieuenctid a chymunedol Capel y Tabernacl, Efail Isaf
Rhan 3: Cenhadu Cyfoes – cyfathrebu technolegol, rhithwir a digidol
Teledu – Alwyn Humphreys, Caerdydd;
Cyswllt dydd i ddydd – Bethlehem, Gwaelod-y-garth
- Marc Jon Williams, Caerdydd
Rhan 4: Arweiniad Goleuedig – bwrlwm byw
Undeb Annibynwyr Cymru – Parchedig Ddr Alun Tudur (eglwys heb adeilad) – Ebeneser, Caerdydd
Achosion a statws elusennol – Bwrdd Cyfarwyddwyr, Capel y Tabernacl, Efail Isaf; Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Rhan 5: Rheoli Grymusol – gweledigaeth eang, gynhwysol
Cytûn – Prif Weithredwr: Parchedig Ganon Aled Edwards;
Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Llywydd 2021-23; Parchedig Evan T Morgan, Caerdydd

Cofiwch bod ein

Holl Oedfaon Blaenorol

yn dal ar 'YouTube'
(diolch i Wyn Jones)

Yn eu plith mae'r rhai mwyaf diweddar:

Sian Meinir:- https://youtu.be/_CdXllV0El4

Y Parchedig Ddr. R Alun Evans:- https://youtu.be/4bwPwUPJpec

Oedfa Sul Diolchgarwch 2022

Fel yr addawyd ar ein tudalen flaen, dyma gofnodi'r rhai gyfrannodd i'r oedfa ar Sul cyntaf mis Hydref – ac mae'n diolch unwaith eto i Heulwen Jones ac athrawon yr Ysgol Sul a phawb fu'n cefnogi'r plant.



... a chip yn unig, o'r gynulleidfa niferus. (Ymddiheuriadau i bawb ohonoch oedd dan y galeri!)

Y Cwrdd Merched **Delyth Pollard**

Llyfr Coch Glancarrog

Mis Medi, a dyma ni'n dechrau ein hunfed tymor ar hugain. Agorwyd y cyfarfod gan Rhian Huws, a darllenodd hi gerdd bwrpasol iawn gan Mererid Hopwood sef, 'Mis Medi'. Yn dilyn, cyflwynodd Delyth Evans, Y Barri, englynion 'Gweddi' gan y diweddar Brifardd Dic Jones*.

Betsan Powys oedd ein siaradwraig wadd a chawsom awr ddifyr tu hwnt yn ei chwmni. Yn ei ffordd hynaws a chartrefol, fe gawsom wead hyfryd o straeon allan o Lyfr Coch Glancarrog. Gwyddom wrth gwrs taw cartref Rhiannon ei mam oedd Glancarrog, ac o'r atgofion o'i magwraeth yno yn Llanrhystud y datblygodd y syniad o greu rhywbeth a fyddai yn drysor i'w gadw. O lyfr nodiadau bach, yn llawysgrifen Rhiannon, aeth Betsan ati i drefnu a chreu llyfr a'i gyflwyno i'w mam. Felly, o ddiflastod cyfnod y clo fe eginodd a thyfodd perl o anrheg i'r teulu oll.

Ie wir, agoriad bendigedig i'n tymor ym Methlehem. Betsan, diolch yn dalpe!

** A dyma un o'r englynion "Gweddi" Dic Jones, y cyfeiriwyd atyn nhw uchod:*

Dig y byd o dwg i ben – dilea
O'i deuluoedd angen.
Dros ein gwlad rho dy aden
Er mwyn dy Enw mawr, Amen.

YR ELUSEN LEOL ELENI

Cymdeithas Alzheimer Cymru

Yn dilyn y bleidlais cyn yr haf, Cymdeithas Alzheimer Cymru oedd y dewis ddaeth i ben y rhestr fel ein helusen leol. Darllenwch ragor am eu gwaith ar:

(Cymraeg | Alzheimer's Society (alzheimers.org.uk))

Mae'r Gymdeithas yn darparu cymorth hanfodol, ac yn rym sylweddol er gwell, i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ddementia – boed yn ddioddefwyr, ynghyd â'r rhai sydd a gofal dros y dioddefwyr - yn bartneriaid, teuluoedd a ffrindiau.

Colli Eurfryn Thomas



Ar Awst 21 daeth y newydd trist fod un o'n haelodau, Eurfryn Thomas, Radur, wedi'n rhagflaenu. Bu Eurfryn yn hynod o ffyddlon ei gefnogaeth i Fethlehem hyd nes i'w iechyd lesgau. Fe'i hetholwyd yn Ddiacon yn 1986, a bu'n gyd-Drysorydd o 1998 hyd 2012.

Yn frodor o Bant-teg ger Ystalyfera, ac o deulu glofaol, roedd ei yrfa a'i arbenigedd ym maes adeiladu a diogelwch awyrennau wedi ei arwain i sawl cyfandir. Ond oherwydd ei wyleidd-dra cynhenid, ni chlywodd llawer o'i gyd-aelodau ym Methlehem am fanylion hynny nes clywed y teyrngedau yn ei angladd yng Nghapel Briwnant, Yr Amlosgfa, ar Fedi'r 7fed.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan Delwyn Sion ynghyd â chyfraniadau gan Y Parchedig Ddr. R Alun Evans a'n trysorydd, Peredur Evans. Rydyn ni fel eglwys yn cydymdeimlo'n ddiffuant gyda'r holl deulu, sef ei briod, Margaret, a David, Huw a Sian.

Drwy eiriau Huw, sy'n feddyg yn Awstralia ac yn methu bod yn bresennol, a'i frawd David, y nodwyd cymaint o ddyn teulu eithriadol o annwyl a phrysur oedd Eurfryn ac fel y bu i'w awydd bore oes i fynd i faes hedfan arwain iddo fod mor allweddol mewn meysydd gwirioneddol ryngwladol a thyngedfennol i deithwyr ar hyd a lled y byd.

Adroddwyd fel y bu yn ei blentyndod, ar y llethrau ger Pant-teg, yn gwylio'r awyrennau adeg y rhyfel, ac i hynny ei ddenu i faes peirianneg awyrennau a pheiriannau jet. Maes o law fe'i cyflogwyd gan gwmni mawr Boeing a symudodd y teulu i Seattle. Yno, bu'n allweddol yn datblygu'r "jumbo jet" – sef y Boeing 747 – ac yn gweithio nos a dydd i sicrhau ei bod yn ddiogel i hedfan – awyren gaiff ei hystyried ymhlith y mwyaf dibynadwy hyd heddiw.

Yna daeth gwahoddiad gan gwmni Lockheed i anialwch Mohave i arbrofi'r awyren L10-11 oedd â pheiriant jet yn y gynffon, yn ogystal ag ar yr adenydd. Fe'i denwyd wedyn i Seland Newydd, lle bu'n gwarchod diogelwch dros 'Air New Zealand'. Yn ddiweddarach yn ei yrfa, wedi dychwelyd i Gymru, bu'n rhan o ddatblygiad yr Airbus Ewropeaidd.

Ymhell cyn iddo gytuno i fod yn gyd-drysorydd ym Methlehem, roedd Eurfryn yn weithgar yng Nghapel Cymraeg y Presbyteriaid yn Los Angeles (ble roedd y darlledwr I D E Thomas yn weinidog) a bu'n allweddol mewn cynllun i sefydlu Cartref Henoed ar eu tir.

Yn nyddiau olaf Eurfryn, cafodd yntau ofal tyner mewn cartref yn Heol Don ac adroddwyd fel y bu'r Gymraeg yn fodd i Sian ac yntau gyfathrebu ar adegau pan oedd ei famiaith yn gymaint o gysur iddo.

IR

Colli John Gerald Morris

Yn ystod mis Awst eleni bu farw un a fu, yn ystod gweinidogaeth y Parchedig T J Davies, yn mynychu oedfaon yng nghwmni'r teulu ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

Efallai y byddai'r enw John Gerald Morris yn ddieithr i'r rhelyw ohonoch, ond petawn yn ei gyflwyno i chwi fel Jim Morris ("Jim y Banc"), yna hwyrach y byddech yn ei gofio.

Bryd hynny, yn Radur y trigai, ond bu i drefn "Wesleaidd" y banciau bryd hynny o symud rheolwyr banc o ardal i ardal yn gyson, eu gorfodi fel teulu i symud i'r Drenewydd i fyw.

Wedi cyfnod yno, fe ddaethon nhw nôl i fyw i Bentyrch, a bu i ymddeoliad diweddarach Jim o'i waith yn y banc roi terfyn ar y symud o ardal i ardal.

'Roedd yn gymwynaswr yn y cylch, a mynych a doeth fyddai ei gyngor i nifer o'r trigolion lleol ynghylch materion ariannol.

Y fo hefyd a fu'n gyfrifol am ofalu am lawnt y capel am beth amser, cyn iddo drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y cylch a wasanaethai i Mac, ewythr Gareth Bale.

'Roedd yn un o fintai'r Fari Lwyd, a gyrchid o amgylch Pentyrch yng nghyfnod y Calan gan aelodau Clwb y Dwrlyn, a byddai ei ymbil yn ei het silc a rhubannau, tra'n ceisio lloches yn Nhafarn y Kings, yn sicrhau mynediad a llymaid yn flynyddol.

Y Parchedig Aled Gwyn a wasanaethodd yn ei angladd yng Nghapel Briwnant yn yr Amlosgfa ar y 7fed o Fedi 2022, a hynny ychydig oriau yn unig cyn y cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Eurfryn Thomas yn yr un man.

'Roedd cartref Aled, Parc Nest, yng Nghastell Newydd Emlyn, a chartref Gerald, fel y cyfeiriai yntau ato, yn rhannu ffin a'i gilydd.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu cyfan – ei wraig, Bronwen, a'r tair merch, Heledd, Lowri a Nia - yn eu hiraeth.

RhGJ

Bethlehem y dyddiau fu

Bu cyfle unwaith eto i chwilio trwy ôl-rifynnau o "Y Tyst a'r Dydd" am hanesion yn ymwneud a Bethlehem. Ymddiheuriadau, ond adroddiad am angladd ydi'r cyntaf – angladd y Parchedig J. Jones, sef 5ed gweinidog y capel (1842 neu 1844 - 1872).
Fel y sylwch o'r cofnod, bu farw cyn cyrraedd ei 60 mlwydd oed, a hynny hefyd ychydig fisoedd cyn i'r capel presennol gael ei gwblhau.
Gwyddom bod teuluoedd mawr yn beth arferol bryd hynny, ac 'roedd yntau yn dad i ddeg o blant!
Tybed a oes cofnod yn rhywle o leoliad ei fedd ym mynwent y Groes-wen?

Hanes Cyfarfod Sefydlu y Parchedig O L Roberts, 7fed gweinidog y capel, yn Nhachwedd 1883 yw'r ail gofnod. Cyfarfod a gynhaliwyd dros ddau ddiwrnod oedd hwn, a chyfrifais naw pregeth yn cael eu traddodi dros y cyfnod! Ac er y dyhead ar ddiwedd y llith am i'r "*undeb fod yn un hir, heddychol, a thangnefeddus*", 'roedd yn cael ei sefydlu fel gweinidog ar Gapel Minny Street ym mis Mehefin 1886!
A rhag ofn eich bod yn dyfalu, y Parchedig R Alun Evans oedd y 15fed gweinidog arnom ym Methlehem, a Delwyn Sion yw'r cyntaf i'w arddel fel Arweinydd!

(Mae peth o'r sillafu a'r orgraff fel y gwreiddiol – aeth y "spell-check" yn wan wrth geisio diweddaru! – Gol.)

<u>Marwolaeth a Chladdedigaeth y Parch J Jones Bethlehem, Pentyrch. (O "Y Tyst a'r Dydd" 28/06/1872)</u>

Ar ôl cystudd maith a phoenus, bu farw ar y 14eg o'r mis hwn, am 11eg o'r gloch y bore.
Torrodd ei waed ers dros bedair blynedd yn ôl, ac ni wellhaodd ar ôl hynny, er iddo fod yn alluog i bregethu, ond gan amlaf mewn gwendid mawr.
Ordeiniwyd ef yn y Rhydri yn y flwyddyn 1838, felly bu yn y weinidogaeth am bedair-ar-ddeg ar hugain o flynyddoedd. Yr oedd ers amryw flynyddoedd wedi rhoddi y Rhydri i fyny, a chyflwynodd ei hun yn hollol i Fethlehem a Thongwynlais.
Perchid ef yn fawr gan bobl ei ofal, a chyfrifid ef yn bregethwr efengylaidd toddedig ac ymarferol dda. Bu yn dra llwyddiannus yn ei gylch drwy ei holl dymor. Bu ganddo law yn sefydliad yr achos yn Beulah, Eglwys Newydd, a Bethesda, Tongwynlais.
Cafodd deulu lluosog – deg o blant – dau o ba rai ydynt weinidogion gyda'r Annibynwyr, a chafodd yr hyfrydwch cyn ei symud o weled yr oll o'r plant yn arddel crefydd Iesu Grist, a diau fod hynny yn destun cysur iddo yn ei gystudd blin.
Dydd Mercher, gosodwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent gysegredig y Groes-wen. Daeth torf luosog ynghyd.
Cyn cychwyn aed i gapel Bethesda, Tongwynlais, lle y cafwyd pregeth ragorol gan y Parch J M Evans, Caerdydd. Dechreuwyd gan y Parch Mr Jones (B) Tongwynlais, a dibennwyd gan y Parch D Griffiths, Llantrisant.
Wedi cyrraedd capel y Groes, pregethwyd yn hynod o effeithiol gan y Parchedigion D Price, Aberdâr, a T Rees D.D Abertawe. Cymerwyd rhan yno ac yn ymyl y bedd gan y Parchedigion W I Morris, Pontypridd; J Thomas, Salem, Aberdâr; R Hughes , Cendl; J Ll Jones, Machen; a W Rees, Maesteg. Rhoddwyd y penillion allan gan y Parchedig D Richards, Caerffili.
Meddai ar gorff cryf, lluniaidd, hardd, a gallesid meddwl y buasai byw yn hir. Colled i'r eglwys oedd colli ei bresenoldeb a'i gynghorion yn y misoedd a basiodd, yn neilltuol eglwys Bethlehem, gan ei fod yn paratoi i adeiladu capel newydd. Bydded i'r Pen-bugail ofalu amdanynt hwy, ynghyd a'r weddw a'r plant. Yr oedd yn y dri-ugeinfed-flwyddyn o'i oedran.
Mawr y bylchau wnaed gan angau yn llechres gweinidogion yr efengyl y blynyddoedd hyn, yn neillduol yn y flwyddyn hon. Gobeithiwn nad yw y Pen mawr ag un cwyn i'n herbyn fel ei fod yn eu symud o flaen drygfyd. Bydded i'r bylchau gael eu llenwi a disgyned ysbryd gweddi ar Seion am i Arglwydd y cynheuaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf. *[LLEIFER]*

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Cyfarfod Sefydlu y Parchedig O L Roberts (o "Y Tyst a'r Dydd" 14/12/1883)

BETHLEHEM, PENTYRCH: Cyfarfod Sefydliad – Nos Fawrth a dydd Mercher Tachwedd 27ain a'r 28ain. Cynhaliwyd cyfarfod Sefydliad y Parch O L Roberts, gynt Penarth, Maldwyn, yn weinidog i'r eglwys uchod. Dechreuwyd nos Fawrth trwy ddarllen a gweddio gan Mr D Phillips, Coleg y Bala, a phregethwyd gan y Parchedigion J R Davies, Caerdydd, ac E Roberts, Byrwydd, Maldwyn.

Dydd Mercher, am 10 dechreuwyd gan y Parchedig E Thomas, Glan-taf, a phregethwyd gan y Parchedigion E Roberts, Byrwydd, a M Jones, Tynewydd, Rhondda. Am ddau, cymerodd y cyfarfod sefydlu le, pryd y dechreuwyd gan y Parch J T Evans, Bodringallt, a phregethwyd gan y Parchedigion T J Rees, Carno, Maldwyn, J Davies, Taihirion, a M C Morris, Ton-Ystrad – y cyntaf ar "Natur Eglwys", yr ail ar "Ddyletswydd y gweinidog", a'r trydydd ar "Ddyletswydd yr Eglwys". Gofynwyd am yr arwyddion arferol o du yr eglwys a'r gweinidog gan y Parch D G Rees, Eglwysnewydd, pa rai a roddwyd yn unfrydol a boddhaol gan y naill a'r llall ohonynt. Yna offrymwyd yr urdd-weddi gan y Parchedig W Rees, Glandwr.

Nos Fercher, dechreuwyd gan y Parchedig T G Jenkyn, Llwynypia, a phregethwyd gan y Parchedigion T J Rees, Carno, a B Davies, Treorci. Cafwyd cyfarfodydd da o'r dechrau i'r diwedd. Yr oedd yr Efengyl yn cael ei phregethu gyda blas a dylanwad. Cafwyd arwyddion amlwg fod Duw yn foddion i'r undeb. Yr oedd yn bresennol, heblaw y rhai a enwyd, y Parchedigion W James, Porth; C T Thomas, Groes-wen; T Anthony, Tongwynlais; J Thomas(B), Tongwynlais; L Rees, Llanharan; J Jenkins(B), Gwaelod-y-garth; W.D Morris (MC), Pentyrch; W Russell, Tongwynlais; a'r Meistri J Millward, J Miles a J Peters, Pentyrch.

Llawenydd gennym hysbysebu fod arwyddion amlwg fod yr eglwys a'r gweinidog yn hoff iawn o'u gilydd, a bod Mr Roberts wedi ymaflyd yn ei waith o ddifrif. Y mae am y gaeaf wedi sefydlu yma i ni fel dynion ieuanc Gymdeithas Ddiwylliadol, ynghyd a Dosbarth Beiblaidd. Cynhelir y naill un wythnos, a'r llall yr wythnos arall. Yr ydym eisoes wedi cael ysgrifau diddorol ar y pynciau canlynol – "Gwerth Cymeriad" a "Pa un yw y mwyaf dylanwadol – y Pwlpud neu ynte y Wasg?" – y cyntaf gan Mr G Thomas, a'r ail gan Mri. E Watkins a J Phillips. Mae lliaws o bynciau da eraill wedi eu nodi allan, a disgwyliwn ysgrifau da arnynt.

Felly nis gallwn lai na dymuno i'r undeb fod yn un hir, heddychol, a thangnefeddus, fel y gwneler daioni lawer yn y lle, a Duw trwy hynny i gael ei ogoneddu. *[Garthfab]*

Ac yn olaf – apêl am ddeunydd i'r

Gair Bach nesaf

Beth am rai o'ch arferion Nadoligaidd, ryseitiau, eich atgofion chi.
Paragraff neu dudalen – dewiswch chi!
Dyddiad cau:

Rhagfyr 1af

(Rhifyn cyn y Nadolig, gyda lwc!)
Peidiwch bod yn swil. Mae gan bawb ei stori Nadolig.
A rhowch wybod am unrhyw newyddion amdanoch chi, eich teulu neu gydnabod. *Pl î î î î î î î î î s !!!*

Ifan Roberts - tycnau@aol.com